

**Cyngor Cymuned Llanpumsaint**  
**Nodiadau Cyfarfod:03.05.2016**  
**Neuadd Goffa 8.00 y.h**

**Presennol: Y Cynghorwyr; Danny Davies, Dylan Jones, Carolyn Smethurst, Mike Poston, Arwel Nicholas, Pamela Jones, Elfed Davies. Cyngorydd Sir, Irfon Jones.**  
**Ymddiheuriadau: Wyn Thomas**

<b>Rhif Agenda</b>	<b>Nodiadau/ Pendefyniadau</b>	<b>I'w weithredu gan</b>
Datgan Buddiannau	DJ – Cynllunio Dôlwerdd	
Cofnodion	Angen cywiro; nid oedd AN yn y cyfarfod mis diwethaf a 'Welsh Ambulance' ac nid 'Air Ambulance'	
Materion yn Codi	<p>Cadeirydd newydd, Arwel Nicholas yn diolch I bawb am ei ethol!</p> <p><b>Safleoedd Bws</b> – Hedydd Rees wedi rhoi pris am wneud gwaith cynnal a chadw ac wedi dweud bod mainc yr Eglwys yn ddiogel. MP yn dweud byddai'r gwaith atgyweirio yn cynnwys newid pren yn ogystal a phlastig ar rhai o'r safleoedd Dyfn bris Hedydd Rees yn dderbyniol, cynnigiwyd gan ED ac eiliwyd gan DJ</p> <p>DD yn cynnig newid mainc yr Eglwys. Clerc yn dangos engrheiffiau o feinciau a bu trafod arnynt.Meinciau Pwyllgor Lles ac Adloniant wedi cyrraedd a CS yn adrodd nad ydynt yn gyfforddus iawn. ED yn cynnig trafod y mater ymhellach ym mis Mehefin</p> <p><b>Skanda Vale</b> – PJ a'r Clerc ac hefyd y Brodyr Michael ac Alex o'r Deml wedi cyfarfod gyda Nicola Smith o'r Adran Briffyrd ac wedi teithio ar hyd heol y Bryn ac I fyny at Skanda Vale. Fe fydd Nicola Smith yn gosod sgôr ar yr heol er mwyn ei osod ar rhestr o heolydd sydd angen eu gwella.</p> <p>ED yn awyddus bod holl drafnidiaeth y Deml yn defnyddio'r heol heibio Cefnmaes, cafwyd hawl cynllunio I greu maes parcio oddi ar yr heol hynny flynyddoedd yn ôl.</p> <p>AN yn dweud byddai peryg y deuai mwy fyth o drafnidiaeth ar hyd heolydd cul LLanpumsaint pe bai'r heol yn cael ei wella. Clerc I chwilio am amodau cynllunio y maes parcio; ai ar gyfer bysys yn unig oedd</p> <p><b>Diffaethwch Penbompren</b> – Clerc wedu cyfarfod gyda Teulu Pentremawr, perchnogion y tir, ac maen't yn barod I'w gyfrannu er lles y gymuned. Angen gwneud gwaith cyfreithiol I drosglwyddo perchnogaeth y tir, Robert Edgecume, Cyfreithiwr y Sir yn dweud byddai'r Sir yn fodlon gwneud y gwaith am bris rhesymol ond I holi am bris oddi wrth gyfreithwyr preifat. Clerc wedi cysylltu gyda UTK a oedd wedi</p>	

	<p>dyfynnu gost o £235 yr awr am wneud tua 5 awr o waith. Red Kite heb rhoi pris eto, a Trant and Richards, cyfreithwyr Teulu Pentremawr yn methu gweithio l'r ddwy ochr.</p> <p>Gofynnwyd a fyddai Zurich Insurance yn gallu cynorthwyo gyda'r costau? DD yn holi ynglyn a atebolwydd/cyfrifoldeb? CS yn dweud fod hynnu ond yn digwydd os oes yna esgeulusdeb.</p> <p>Clerc I holi Robert Edgcumbe am bris, a Yswiriant Zurich sut fyddai'r tir ychwanegol yn dylanwadu ar gost yswiriant a beth am asesiad risg?</p> <p><b>Superfast Cymru</b> – MP yn adrodd ar gyfarfod a gynhaliwyd yn Hendygwyn ar Daf</p>	
Gohebiaeth	<p><b>Ralph Carpenter</b> – yn gofidio ynghylch cynnydd yn nrhafnidiaeth drwm drwy bentref Bronwydd. Cyngor Cymuned Bronwydd yn annog Adran Briffyrdd y Sir I ganiatau loriâu sydd yn gwasanaethu busnesau a ffermydd lleol yn unig a gwneud l'r holl drafnidiaeth drom arall ddefnyddio heol Glanwili a Pheniel. Trafodwyd y mater yn drwyadl ac yna cynnal pleidlais:</p> <p>O blaid cefnogi cais Cyngor Cymuned Bronwydd – 1  Yn erbyn y cynnig - 5  Atal pleidleisio - 1</p> <p><b>Tony Williams</b> – trafod gwaith heol heibio Darfryn/Gwynfryn. Clerc I drefnu cyfarfod gyda Tony Williams a Darren King. Gwybodaeth am wasanaeth '<b>Eiriol</b>' sydd yn cefnogi unigolion a theuluoedd sydd yn ofalwyr; CS am wybodaeth ar gyfer LLYLL.</p>	
Cynllunio	<p>DJ eisioes wedi datgan buddiant.</p> <p><b>Dôlwerdd</b>; estyniad l'r cefn – dim gwrthwynebiad</p> <p><b>Llechwedd</b> – mynedfa newydd. Gwrthwynebu ar sail y byddai yn rhy beryglus.</p>	
Materion Ariannol	<p><b>Cyfieithu</b>, Trywydd £44.40 – DD &amp; PJ</p> <p><b>Cyflog y Clerc</b>, £108 cyflog a £27 treth – DJ a MP</p> <p><b>Aelodaeth Un Llais Cymru</b>, £87 – PJ &amp; DJ</p>	
UFA	<p><b>PJ</b> – pryd fydd y gwelliannau trafndiaeth yn cychwyn, beth fydd yr amserlen? Clerc I gysylltu gyda J McEvoy</p> <p><b>MP</b> – y Defibrillator cyntaf wedi ei brynu (£1,350 gyda cabinet awyr agored) a'l osod ar wal y Neuadd Goffa. I'w ddadorchuddio ar ddiwrnod Gwyl Hwyl.</p> <p><b>CS</b> – Dim</p> <p><b>IJ</b> – yn awyddus I dderbyn enwau o bobl lleol ag awydd byw yn nhai gwag Bryn y Wawr</p> <p><b>ED</b> – ochr yr heol a elwir yn Garreg Hir ( yr heol heibio Nant yr Hebog I fyny at Gilfach Fach) wedi mallu yn ddifrifol</p> <p><b>DJ</b> – Dim</p> <p><b>DD</b> – Dim</p> <p><b>AN</b> – Cyflwr gwael ar heol Calcut a Nantygelli</p>	
Cyfarfod yn gorffen	9.47	

Cafwyd yn gywir : .....  
(Cadeirydd)

Dyddiad : .....

Cafwyd yn gywir : .....  
(Ysgrifennydd)

Dyddiad: .....